Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Adroddiad (SLC (3) 01-10)

Dyddiad: 14 Ionawr 2010
Amser: 9.00
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 14 Ionawr 2010. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Alun Davies AC, Mike German AC, Rhodri Morgan AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan William Graham AC (roedd Alun Cairns yn dirprwyo).

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod Rhodri Morgan AC yn Aelod o'r Pwyllgor yn lle Joyce Watson AC. Diolchodd y Cadeirydd i Joyce Watson am ei chyfraniad at waith y Pwyllgor a chroesawodd Rhodri Morgan AC i'r Pwyllgor.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC362 – Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 4 Rhagfyr 2009. Fe'i gosodwyd ar 8 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2009

SLC363 – Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 4 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 8 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2009

SLC364 – Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 7 Rhagfyr 2009. Fe'i gosodwyd ar 9 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2009

SLC365 – Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Cymru) ac Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) (Diwygio) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 10 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 1 Ionawr 2010

SLC366 – Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 10 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 1 Ionawr 2010

SLC368 – Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 10 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 1 Ionawr 2010

Nododd y Pwyllgor fod y darn hwn o ddeddfwriaeth yn cyflwyno un o'r Offerynnau Statudol cyntaf o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ac mae'n helpu i weithredu rhaglen "Llwybrau Dysgu" Llywodraeth Cymru.

SLC371 - Rheoliadau Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 14 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 15 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 1 Chwefror 2010

SLC374 - Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant sy'n cael eu Haddysg drwy Ddarpariaeth Amgen) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 17 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 21 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 12 Ionawr 2010

Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2 a 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC367 – Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) (Dwygio) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 10 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 1 Chwefror 2010

Er bod y Memorandwm Esboniadol yn cyfyngu'r Rheoliadau hyn i'r "un sefydliad" o ran rheoliad 2 (2) (b), nid oedd rheoliad 2 (2) (b) ei hun yn y fersiynau Cymraeg na Saesneg o'r Rheoliadau yn cynnwys y geiriau "yn yr un sefydliad". Penderfynodd y Pwyllgor dynnu sylw'r Cynulliad Cenedlaethol at hyn o dan Reol Sefydlog 15.3

SLC369 – Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 10 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 20 Ionawr 2010

SLC370 – Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) (Diwygio) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 11 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 1 Ionawr 2010

Nododd y Pwyllgor fod yr Offeryn Statudol hwn yn gweithredu un o ymrwymiadau Llywodraeth Cymru o dan y rhaglen "Cymru'n Un".

SLC372 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 16 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 17 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 8 Ionawr 2010

Penderfynodd y Pwyllgor ohirio cyflwyno adroddiad ar yr Offeryn Statudol hwn tan yr wythnos nesaf er mwyn caniatáu amser i Lywodraeth Cymru ystyried adroddiad posibl o dan Reol Sefydlog 15.3

Ceir adroddiadau'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 a Rheol Sefydlog 15.3 i'r Rheoliadau hyn yn Atodiadau 1-3.

Unrhyw Fater Arall

Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i'r datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion a monitro canlyniadau Adroddiadau'r Pwyllgor ar Offerynnau Statudol

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Gymdeithas y Gyfraith, a gynrychiolwyd gan E Kay Powell, Cyfreithiwr LLM a Chynghorydd Polisi; Tessa Shellens, Ymgynghorydd, Morgan Cole a Huw Williams, Partner, Geldards LLP. Cytunodd Cymdeithas y Gyfraith i ddarparu enghreifftiau o'r problemau sy'n codi o'r amrywiaethau rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddeddfwriaeth.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar hefyd gan Uned y Cyfansoddiad, Ysgol Polisi Cyhoeddus, Coleg Prifysgol Llundain (UCL), a gynrychiolwyd gan Alan Trench. Unwaith y byddai ei dystiolaeth ysgrifenedig wedi ei baratoi, cytunodd Mr Trench y byddai'n darparu copi ohoni i'r Pwyllgor Dethol Materion Cymreig.

Gohebiaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor ymateb Edwina Hart MBE AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus i lythyr y Cadeirydd ynghylch SLC353 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2009.

Janet Ryder AC

Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

14 Ionawr 2010

Atodiad 1

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-01-10)

SLC367

Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Teitl: Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) (Diwygio) 2009

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 24 (Ffitrwydd y safleoedd) o Reoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 drwy fewnosod rheoliad 24 (1A) newydd. Diwygir y Rheoliadau er mwyn gosod terfyn ar y nifer o welyau y caiff ysbyty annibynnol eu darparu pan fo triniaeth a nyrsio tymor hir yn cael eu darparu i bersonau gydag anabledd dysgu, yn ogystal â rhai sydd ag afiechyd meddwl. Mae hefyd yn ofynnol nad oes unrhyw ysbyty annibynnol arall wedi ei leoli yn agos iawn i ysbyty annibynnol arall yn y fath fodd ag y gellid ei ystyried yn lluosogiad o'r ysbyty annibynnol gwreiddiol, ac y byddai felly yn effeithio ar y rhesymeg a'r bwriad o gyfyngu ar y nifer o gleifion mewn ysbytai annibynnol yn ôl darpariaeth y rheoliadau hyn.

Craffu Technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

Mae Rheoliad 3 (1) yn y testun Cymraeg yn gymwys i bob cais newydd gan ysbytai annibynnol i gofrestru ysbyty annibynnol, neu i amrywio cofrestriad ysbyty annibynnol gyda Gweinidogion Cymru sy'n cael ei wneud ar 1 Chwefror 2010 neu wedi hynny, lle nad yw rheoliad 3 (1) y testun Saesneg sydd hefyd yn gymwys i bob cais newydd i gofrestru ysbyty annibynnol neu i amrywio cofrestriad ysbyty annibynnol gyda Gweinidogion Cymru sy'n cael ei wneud ar 1 Chwefror 2010 neu wedi hynny, yn nodi y caiff y ceisiadau newydd eu gwneud gan yr ysbytai annibynnol. [Rh.S. 15.2 (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg].

Craffu ar rinweddau

O dan Reol Sefydlog 15.3 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

Rhan o ddiben a bwriad y Rheoliadau fel y'i darperir yn y Memorandwm Esboniadol yw bod triniaeth y rhagwelir y bydd yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod o 12-mis, yn yr un sefydliad, mewn perthynas â rheoliad 2 (2) (b). Fodd bynnag, nid yw rheoliad 2 (2) (b) yn fersiwn Gymraeg na Saesneg y Rheoliadau, yn cynnwys y geiriau "yn yr un sefydliad." Trwy hepgor y geiriau "yn yr un sefydliad" nid yw'r Rheoliadau'n rhoi effaith i ddiben a bwriad y Memorandwm Esboniadol. A allai'r Llywodraeth gadarnhau, yn gyntaf, paham fod y geiriau wedi eu hepgor, ac yn ail, a yw'r Rheoliadau'n cyflawni'n amherffaith ei amcanion polisi? [Rh.S.15.3 (v)].

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

14 Ionawr 2010

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Craffu Technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig oherwydd anghysondebau rhwng ystyr y testunau Cymraeg a Saesneg yn rheoliad 3(1).

Ymateb:

Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bob cais newydd i gofrestru neu amrywio cofrestriad sydd eisoes mewn bod o ysbyty annibynnol gyda Gweinidogion Cymru a wneir ar 1 Chwefror 2010 neu ar ôl hynny.

Dyma'r testun Cymraeg:

"Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bob cais newydd **gan ysbytai annibynnol** i gofrestru ysbyty annibynnol neu i amrywio cofrestriad ysbyty annibynnol gyda Gweinidogion Cymru sy'n cael ei wneud ar 1 Chwefror 2010 neu wedi hynny."

Yn y testun Cymraeg, ymddengys y geiriau "**gan ysbytai annibynnol**", er nad oes geiriau cyfatebol yn y testun Saesneg. Petai'r testun Saesneg yn adlewyrchu'r Gymraeg, byddai'n darllen fel a ganlyn:-

This regulation applies to all new applications **by an independent hospital** to register or vary an existing registration of an independent hospital with the Welsh Ministers which are made on or after 1 February 20120.

Nid ydym yn credu bod y geiriau ychwanegol yn y testun Cymraeg yn gwneud unrhyw wahaniaeth i ystyr gyfreithiol rheoliad 3(1), nac i

weithrediad y rheoliadau, er, a bod yn fanwl gywir, y mae ystyr lythrennol y testun yn wahanol.

Craffu ar sail teilyngdod

O dan Reol Sefydlog 15.3 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig gan nad yw'r rheoliadau yn rhoi effaith i bwrpas a bwriad y Memorandwm Esboniadol.

Ymateb:

O ran rheoliad 2(b) mae'r Memorandwm Esboniadol, sydd ar gael yn Saesneg yn unig, yn darllen fel a ganlyn:-

2(b) An independent hospital providing treatment and care for patients with a mental illness (including those in low and medium secure accommodation) and also for patients with a learning disability, whose treatment is anticipated to extend beyond a 12-month period **in the same establishment**, and for whom overnight accommodation is provided, must not exceed 15 beds, and where reasonably practicable, provided in two or more units.

Mae rheoliad yn 2(2)(b) yn darllen:-

2(b) nad yw ysbyty annibynnol sy'n darparu triniaeth a nyrsio i gleifion ag afiechyd meddwl (gan gynnwys y rheiny mewn llety diogel o lefel isel neu ganolig) ac hefyd i gleifion ag anabledd dysgu, y rhagwelir y bydd eu triniaeth a nyrsio yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod o 12 mis, ac y darperir llety dros nos iddynt yn fwy na 15 o welyau, ac os yw'n rhesymol ymarferol, fe'u darperir mewn dwy neu fwy o unedau.

Felly nid oes geiriau Cymraeg sy'n cyfateb i "**in the same establishment**" yn rheoliad 2(2)(b).

Ni roddwyd geiriau Cymraeg sy'n cyfateb i "**in the same establishment**" yn rheoliad 2(2)(b) o fwriad, oherwydd barnwyd nad oedd y geiriau hynny yn angenrheidiol. Hyd yn oed os hepgorir y geiriau sy'n cyfateb i "in the same establishment", mae'n glir drwy ymhlygiad bod y cyfyngiad ar nifer y gwelyau yn ymwneud â'r un sefydliad. Yr unig reswm y defnyddiwyd "**in the same establishment**" yn y Memorandwm Esboniadol oedd i esbonio ac egluro. Nid yw'n dilyn bod geiriau a ddefnyddiwyd yn y Memorandwm Esboniadol i gyfeirio at reoliad neu i esbonio neu i egluro rheoliad yn gorfod cael eu defnyddio yn y rheoliad ei hun.

Yr ydym yn fodlon bod ystyr rheoliad 2(2)(b) yn glir a'i fod yn rhoi effaith i ddiben a bwriad y Memorandwm Esboniadol a bwriad polisi'r Llywodraeth.

Atodiad 2

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-01-10)

SLC369

Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Teitl: Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2009

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2009 a oedd yn cynnwys gwallau drafftio.

Estynnwyd gan Ddeddf Plant 2004 ystyr "organisation" yn Neddf Plant 1989 i gynnwys cymdeithas anghorfforedig. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 ac i Reoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002 i roi effaith weinyddol i'r diwygiad hwnnw. Maent hefyd yn diwygio'r atodlen sy'n rhestru'r dogfennau a'r wybodaeth y mae'n ofynnol i geisydd sydd am gael ei gofrestru eu darparu pan fo person wedi ei benodi i fod â gofal am ofal dydd.

Craffu technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

Cyfeiria Rheoliad 3 (6) yn y testun Saesneg at roi "a body corporate" yn lle "ân organisation", lle mae rheoliad 3 (6) yn y testun Cymraeg yn cyfeirio yn y mewnosodiad Saesneg at "a corporate body" yn lle "organisation". [Mae Rheol Sefydlog 15.2 (vii) yn gymwys, lle ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr ei destun Cymraeg a thestun Saesneg].

Craffu ar deilyngdod

Ni nodir unrhyw bwyntiau i graffu arnynt o dan Reol Sefydlog 15.3 o ran yr offeryn/offeryn drafft hwn:

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

14 Ionawr 2010

Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:

Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2009

"Derbynnir bod anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn yr ystyr bod rheoliad 3(6) yn y testun Saesneg yn cyfeirio at roi "a body corporate" yn lle "organisation", tra bo rheoliad 3(6) yn y testun Cymraeg yn cyfeirio yn y geiriau Saesneg sy'n cael eu mewnosod at roi "a corporate body" yn lle "organisation". Mae'r testun Saesneg fel y bwriadwyd iddo fod, ond mae camgymeriad yn y Gymraeg. Serch hynny, nid oes unrhyw wahaniaeth o ran ystyr rhwng "corporate body" a "body corporate" ac mae "organisation" wedi ei ddiffinio'r gywir yn y ddau destun. Nid yw'r camgymeriad yn achosi unrhyw ddryswch. Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd ond bydd yn adolygu'r mater y tro nesaf y bydd yn cael cyfle addas."

Atodiad 3

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-01-10)

SLC370
Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Teitl: Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) (Diwygio) 2009

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006 i roi pwerau i Weinidogion Cymru o ran Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid i fyd ffermio a fydd yn agor yn 2010.

Craffu technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2, gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

Yn rheoliad 2(3) ceir croesgyfeiriad yn y testun Saesneg at reoliad 9(1)(l) o Reoliadau 2006. Mae'r testun Cymraeg yn cynnwys yr un croesgyfeiriad, ond gan i'r paragraffau ddilyn llythrennau yn nhrefn berthnasol yr wyddor, byddai'r cyfeiriad cyfatebol yn Gymraeg wedi cyfeirio at reoliad 9(1)(h). [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)]

Craffu ar deilyngdod

Ni nodir unrhyw bwyntiau i graffu arnynt o dan Reol Sefydlog 15.3 o ran yr offeryn/offeryn drafft hwn*:*

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

14 Ionawr 2010

Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:

Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) (Diwygio) 2009

"Mae'r gwall wedi cael ei gywiro yn y fersiwn argraffedig o'r testun Cymraeg o'r Rheoliadau."